Planning Inspectorate
Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: connahsquay@planninginspectorate.gov.uk

At yr ymgeisydd
(Trwy e-bost yn unig)

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010166

Dyddiad: 28 Awst 2025

Annwyl Caroline,

**Deddf Cynllunio 2008 – adran 51**

**Cais gan Uniper UK Limited am orchymyn yn rhoi cydsyniad datblygu ar gyfer Prosiect Pŵer Carbon Isel Cei Connah**

**Cyngor ar ôl cyhoeddi penderfyniad i dderbyn y cais i'w archwilio**

Ar 28 Awst 2025, penderfynodd yr Ysgrifennydd Gwladol fod y cais ar gyfer y prosiect uchod yn bodloni'r profion derbyn o dan adran 55 Deddf Cynllunio 2008. Mae rhestr wirio derbyn yr Arolygiaeth Gynllunio a dogfennau'r cais wedi cael eu cyhoeddi ac maen nhw ar gael ar dudalen y prosiect ar ein gwefan.

Wrth gynnal gwiriadau yn ystod y cam derbyn, mae'r Arolygiaeth wedi gwneud rhai arsylwadau cychwynnol ynglŷn â'r cais. Mae'r llythyr hwn yn rhoi cyngor i'r ymgeisydd o dan adran 51 Deddf Cynllunio 2008 yn gysylltiedig â'r arsylwadau cychwynnol hyn. Dylai'r ymgeisydd roi sylw i'w gynnwys ac ystyried sut gellid cymryd camau priodol i ymateb iddo.

**Ymgyngoreion a amlygwyd ar sail ragofalus**

O ystyried amgylchiadau unigol yr achos hwn, mae'r Arolygiaeth Gynllunio yn cynghori y dylid arfer ymagwedd ragofalus at ymgynghori o dan a42(1)(a) Deddf Cynllunio 2008 er mwyn sicrhau bod pawb y gallai'r cais effeithio arnynt, neu a allai fod â buddiant yn y cais, yn cael cyfle i gymryd rhan yn llawn yn yr archwiliad o'r cais. Ar y sail hon, fe allai'r ymgeisydd ddymuno hysbysu'r cyrff a restrir ym Mlwch 6 y rhestr wirio adran 55 pan fydd yn hysbysu ynghylch y cais a dderbyniwyd o dan a56(2)(a) Deddf Cynllunio 2008; oni bai bod cyfiawnhad penodol dros beidio â gwneud hyn.



disability confident EMPLOYER

**Mân wallau a hepgoriadau**

Mae mân wallau a hepgoriadau, fel yr adlewyrchir ym Mlwch 30 y rhestr wirio derbyn.

**Datganiad Cyllid** (**Doc 4.4**)

Er bod yr Arolygiaeth Gynllunio yn cydnabod sensitifrwydd masnachol cost amcangyfrifedig y prosiect, cynghorir yr ymgeisydd bod y wybodaeth hon yn ystyriaeth allweddol wrth asesu'r tebygolrwydd y bydd digon o gyllid ar gael i gyflawni'r Datblygiad Arfaethedig, os rhoddir cydsyniad datblygu. Fel y cyfryw, dylai'r ymgeisydd gynnwys cost amcangyfrifedig a chost debygol caffael gorfodol, neu dystiolaeth amgen addas, mewn diweddariadau i'r Datganiad Cyllid yn y dyfodol.

Gofynnir i chi weithredu'r pwyntiau hyn cyn i'r cyfarfod rhagarweiniol ddechrau. Bydd hyn yn cyfrannu at archwiliad mwy effeithlon ac yn rhoi sicrwydd i unrhyw Awdurdod Archwilio yn y dyfodol fod y dogfennau'n gyflawn ac yn gywir.

Hyderwn y bydd y cyngor hwn yn ddefnyddiol i chi. Fodd bynnag, os bydd gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r materion hyn, mae croeso i chi gysylltu â'n swyddfa gan ddefnyddio'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn.

Yn gywir,

*Jake Stephens*

Jake Stephens
**Rheolwr Achos**

Nid yw'r llythyr hwn yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.
Darllenwch ein Hysbysiad Preifatrwydd cyn anfon gwybodaeth at yr Arolygiaeth Gynllunio.



disability confident EMPLOYER